

# **Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin**

**2020**

**Adroddiad Blynyddol**

**Ionawr 2021**

## Rhagair i Adroddiad Blynyddol 2020

Mae 2020 wedi bod yn flwyddyn anarferol i Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin lle cynhaliwyd 3 cyfarfod yn unig yn ystod y flwyddyn. Cynhaliwyd un cyfarfod yn unig yn ei wedd arferol cyn y cyfyngiadau symud cyntaf a chynhaliwyd y ddau arall ar-lein yn dilyn yr achosion o'r Coronafeirws.

Mae wedi bod yn flwyddyn heriol iawn ac yn un y byddwn yn cofio amdani am y rhesymau anghywir.

Mae'r pandemig Coronafeirws wedi achosi problemau sylweddol i bawb sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau cyhoeddus gan gynnwys Tîm Hawliau Tramwy Cyngor Sir Gaerfyrddin. Oherwydd y cyfyngiadau symud, cyfyngiadau teithio a chynngor a roddwyd i'r cyhoedd, mae mwy o bobl yn aros gartref ac mae mwy o bobl yn ceisio defnyddio eu rhwydwaith hawliau tramwy lleol.

Er bod hyn wedi cyflwyno llawer o heriau ac wedi creu gwaith sylweddol i dimau'r Cyngor, mae'n braf gweld bod mwy o bobl yn defnyddio eu hawliau tramwy lleol ac yn dechrau gwerthfawrogi beth sydd ar gael ar garreg eu drws. Gobeithio y bydd mwy o alw yn arwain at welliannau pellach ynghyd â rhoi blaenoriaeth i'r asedau pwysig hyn i ni i gyd yn y dyfodol.

Mae'n werth nodi hefyd bod y tîm hawliau tramwy, trwy gydol y flwyddyn 'heriol' hon, wedi parhau i ddatblygu prosiectau ac wedi gweithio ar syniadau a fydd yn arwain at well rhwydwaith hawliau tramwy o fewn y Sir yn y pen draw.

Wrth imi ysgrifennu'r adroddiad hwn yn dilyn cyfarfod cyntaf y Fforwm Mynediad Lleol ar-lein yn 2021, mae'n werth nodi bod camau sylweddol wedi'u cymryd i ddwyn i ffrwyth nifer o brosiectau a fydd o fudd i'r rhwydwaith drwy gydol 2021 a thu hwnt.

Y gobaith yw y gellir datblygu prosiectau eraill tebyg drwy gydol 2021 ac y gellir manteisio ar wirfoddolwyr o bob grŵp defnyddwyr i wella'r rhwydwaith hawliau tramwy yn Sir Gaerfyrddin ymhellach.

Mae'r Fforwm Mynediad Lleol ar hyn o bryd yn cynnwys 13 aelod sy'n ymddiddori ac yn arbenigo mewn ystod o feysydd gwahanol yn ymwneud â hawliau tramwy a mynediad i gefn gwlad. Y gobaith yw y gellir denu mwy o aelodau yn 2021 pan fydd Fforwm Mynediad Lleol newydd yn cael ei ethol am y 3 blynedd nesaf.

Mae Jane Evans o Gymdeithas Ceffylau Prydain wedi gadael y Fforwm yn ystod y flwyddyn. Hoffwn ddiolch i Jane am fod yn aelod o'r Fforwm Mynediad Lleol gan ddymuno'n dda iddi i'r dyfodol.

Mae Steve Pilliner (Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth Cyngor Sir Gaerfyrddin) a Hazel Evans (Aelod y Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd) yn bresennol yn y Fforwm Mynediad Lleol yn rheolaidd ynghyd â chynrychiolwyr o Gyfoeth Naturiol Cymru ac aelodau eraill o Dîm Hawliau Tramwy Cyngor Sir Gaerfyrddin, a hoffwn yn bersonol ddiolch i'r rhain i gyd am fynychu cyfarfodydd y Fforwm Mynediad Lleol ac am yr adborth yr ydych yn ei ddarparu yn y cyfarfodydd.

Bu'r Fforwm yn trafod 20 o wahanol bynciau yn ystod 2020 ar amrywiaeth eang o faterion fel yr amlinellir ar dudalennau 6 i 10. Mae hyn yn dangos bod y Fforwm wedi

bod yn rhan o edrych ar nifer helaeth o eitemau, eu trafod a chynghori arnynt drwy gydol y flwyddyn.

Drwy gydol 2020 mae'r Fforwm Mynediad Lleol wedi parhau i fonitro nifer y materion cyfreithiol a chynnal a chadw sydd heb eu datrys ac sydd wedi'u cofrestru ar y rhwydwaith hawliau tramwy. Yn anffodus, mae nifer y materion wedi cynyddu'n gyson trwy gydol y flwyddyn. Efallai fod hyn yn ymwneud â'r pwysau sy'n deillio o'r Pandemig a'r ffaith fod mwy o bobl yn defnyddio'r rhwydwaith yn sgil y cyfyngiadau ar y cyhoedd a ddaeth i rym.

Y gobaith yw y bydd y prosiectau y soniwyd amdanynt yn gynharach, y bwriedir eu cynnal drwy gydol 2021, yn dechrau mynd i'r afael â'r materion hyn ac yn helpu i leihau'r niferoedd. Bydd y Fforwm Mynediad Lleol yn parhau i fonitro'r sefyllfa gan obeithio am ganlyniadau mwy cadarnhaol erbyn diwedd 2021.

Bydd y Fforwm yn parhau i fonitro cyflwr y rhwydwaith hawliau tramwy yn agos drwy gydol 2021 pryd y bydd adroddiadau yn cael eu cyflwyno ym mhob cyfarfod.

Bydd 2021 yn flwyddyn ddiddorol arall i'r Fforwm wrth i'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy barhau i gael ei fonitro, y diddordeb parhaus ym mhrosiect Llwybr Dyffryn Tywi, gweithio ochr yn ochr â Chyngor Sir Caerfyrddin i ddatblygu strategaeth marchogaeth ar gyfer y sir a thrafodaethau parhaus â'r Penaethiaid Gwasanaeth ynghylch materion strategol a pholisi sy'n ymwneud â mynediad i gefn gwlad.

Carwn ddiolch i Caroline Ferguson a holl aelodau'r Tîm Hawliau Tramwy am eu hamser ac am eu cyngor i'r fforwm fel ysgrifennydd/yngynghorwyr dros y flwyddyn ddiwethaf.

Yn ogystal carwn ddiolch i holl aelodau'r fforwm am eu hamser ac am yr arbenigedd y maent yn ei gyfrannu i'r Fforwm.

Mark Hadley  
Cadeirydd  
Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin

## Cyflwyniad

Sefydlwyd Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin ym mis Medi 2002. Mae'n gyfrifol am Sir Gaerfyrddin, ac eithrio'r ardal sy'n rhan o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog; eu Fforwm Mynediad Lleol hwy sy'n gyfrifol am yr ardal honno fel y dangosir yn Atodiad 3. Roedd gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd statudol i sefydlu'r Fforwm yn ôl gofynion Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

Swyddogaeth statudol y Fforwm yw cynghori'r awdurdod, Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill am wella mynediad y cyhoedd i dir yn yr ardal at ddibenion hamddena yn yr awyr agored a mwynhau'r ardal, gan barchu anghenion rheoli tir a harddwch naturiol yr ardal.

Bellach mae cylch gwaith y Fforwm wedi cael ei ehangu i roi cyngor nid yn unig i'r awdurdod penodi (Cyngor Sir Gaerfyrddin yn ein hachos ni), yr Awdurdod Priffyrdd a chyrrff eraill fel y nodir gan y rheoliadau, ond hefyd i roi cyngor ar Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy Cyhoeddus, Wardeiniaeth, llunio is-ddeddfau ac eithrio a chyfyngu hir dymor ar fynediad.

Dylid ceisio barn y Fforwm ynghylch unrhyw reoliadau newydd o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, rheoli hawliau mynediad newydd, y blaenoriaethau strategol ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus a rhwydweithiau beicio a phob math arall o hamddena yn yr awyr agored.

Mae aelodau'r Fforwm wedi ymrwymo i fynychu cyfarfodydd gan grwpiau allanol os bydd hynny'n briodol ac fe'u hanogir i wneud popeth o fewn eu gallu i ymwneud â'r cyhoedd.

Mae holl gyfarfodydd y Fforwm Mynediad Lleol yn agored i'r cyhoedd. Mae cofnodion cyfarfodydd y Fforwm a manylion eraill ynghylch y Fforwm ar gael ar wefan Cyngor Sir Gaerfyrddin: <https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/hawliau-tramwy-cyhoeddus/fforwm-mynediad-lleol/#.Ykr3K9vMLIU>

Mae rheoliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau penodi baratoi adroddiad blynyddol, cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, ynghylch pob Fforwm y maent yn gyfrifol amdano. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys cyfarwyddyd Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch llunio Adroddiadau Blynyddol Fforymau Mynediad Lleol a chynnwys yr adroddiadau hynny. Bydd amryw bwrpasau i'r adroddiad blynyddol, sef cyflwyno:

a) Crynodeb o waith y flwyddyn flaenorol. Bydd cofnodion cyfarfodydd unigol a dogfennau eraill a luniwyd yn rhoi mwy o fanylion ond bydd yr adroddiad blynyddol yn crynhoi gwaith y Fforwm.

b) Cynllun gwaith am y flwyddyn sydd i ddod. Hwn fydd y cynllun y cytunodd y Fforwm a'r awdurdod penodi arno, yn unol â rheoliad 16(2)(b). Derbynnir y gall blaenoriaethau sy'n newid a phwysau gwaith arall olygu na ellir cydymffurfio â'r cynllun yn llawn.

c) Dogfen 'gyhoeddusrwydd'. Yn ôl statud mae'n rhaid i'r adroddiad blynyddol fod ar gael i'r cyhoedd ei ddarllen ac mae'n rhaid iddo fod ar gael i'r cyhoedd ei brynu.

## **Adolygu'r Flwyddyn**

### **Adroddiad ar y Swyddogaeth Statudol**

Mae'r adran hon o'r adroddiad blynyddol yn canolbwyntio ar sut y cyflawnodd y Fforwm ei swyddogaeth statudol yn ystod y flwyddyn sy'n gorffen ar 31 Rhagfyr 2020. Yn ôl Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, ei swyddogaeth yw cynghori:

- a) Yr awdurdod penodi.
- b) Unrhyw gorff sy'n cyflawni swyddogaethau o dan Ran I mewn perthynas â thir yn yr ardal honno.
- c) Os yw'r awdurdod penodi yn Awdurdod Parc Cenedlaethol, yr awdurdod priffyrdd lleol ynghylch unrhyw ddarn o'r tir hwnnw, a
- d) Chyrff eraill y gellir eu pennu.

Ynghylch gwella mynediad cyhoeddus i dir yn yr ardal honno at ddibenion hamddena yn yr awyr agored a mwynhau'r ardal.

Bydd y cyrff a enwir yn (a) i (d) (uchod) yn rhoi sylw, wrth iddynt gyflawni'u swyddogaethau, i unrhyw gyngor perthnasol a roddir iddynt gan Fforwm Mynediad Lleol o dan yr is-adran hon neu unrhyw ddarpariaeth arall o dan y Ddeddf hon.

Cynhaliodd y Fforwm 3 cyfarfod yn y cyfnod rhwng 1 Ionawr 2020 a 31 Rhagfyr 2020. Gellir crynhoi'r cyfarfodydd hyn fel a ganlyn:

- 1) 12 Mawrth 2020 – Canolfan Hamdden Caerfyrddin
- 2) 9 Gorffennaf 2020 – Cyfarfod Arbennig (Heb ei Gofnodi'n Llawn) Ar-lein trwy Microsoft Teams
- 3) 22 Hydref 2020 – Ar-lein trwy Microsoft Teams

## **Materion a Ystyriwyd gan y Fforwm rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr 2020**

### **1. Pwnc a drafodwyd: Aelodau Newydd / Ymddiswyddiadau**

Dyddiad(au) Trafod: 12 Mawrth 2020, 22 Hydref 2020

Crynodeb: Ymddiswyddodd Paul Barrett o'r Fforwm Mynediad Lleol yn y cyfarfod hwn (cafodd yr ymddiswyddiad hwn ei dynnu'n ôl yn ddiweddarach ac mae Paul yn dal yn aelod o'r Fforwm Mynediad Lleol). Mynychodd Clive Poulton o Grŵp Anabledd Sir Gaerfyrddin y cyfarfod i drafod y posibilïad o ymuno â'r Fforwm Mynediad Lleol (Nid yw Clive wedi ymuno â'r Fforwm Mynediad Lleol hyd yn hyn). Ymddiswyddodd Jane Evans o'r Fforwm yng nghyfarfod mis Hydref.

### **2. Pwnc a drafodwyd: Tynnu Rhwystr Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol**

Dyddiad(au) Trafod: 12 Mawrth 2020

Crynodeb: Cadarnhawyd bod llawer o rwystrau wedi'u tynnu oddi ar y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol ac nid yw'n ymddangos bod hyn wedi arwain at broblem fawr yn ymwneud â defnyddio beiciau modur, a oedd yn bryder a fynegwyd yn wreiddiol.

### **3. Pwnc a drafodwyd: Atebolrwydd Cyhoeddus Fferm Wynt Brechfa**

Dyddiad(au) Trafod: 12 Mawrth 2020

Crynodeb: Cadarnhawyd bod defnyddwyr Fforest Brechfa yn dal i aros am gadarnhad gan Gyfoeth Naturiol Cymru ynghylch yswiriant atebolrwydd cyhoeddus. Roedd Phil Morgan o Gyfoeth Naturiol Cymru i drafod y mater gyda Jillie Gardiner. Trafodwyd o dan unrhyw fater arall yng nghyfarfod mis Mawrth bod 2 lwybr caniataol ag arwyddbyst yn cael eu creu yng Ngorllewin Brechfa.

### **4. Pwnc a drafodwyd: Rheoli Mynediad Cyhoeddus mewn Hamdden / Rheoli Hawliau Tramwy Cyhoeddus**

Dyddiad(au) Trafod: 12 Mawrth 2020

Crynodeb: Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â chyllidebau cyfalaf ar gyfer y flwyddyn a'r cyllido cyfalaf ar gyfer Llwybr Dyffryn Tywi. Dywedodd Stephen Pilliner fod angen defnyddio cynifer o wirfoddolwyr â phosibl i gynorthwyo gyda'r ochr ariannol. Cadarnhawyd y byddai'r rhaglen Clefyd Coed Ynn yn canolbwyntio ar brif ffyrdd ac nid hawliau tramwy. Cafwyd hefyd drafodaeth ynghylch teithio llesol. Cadarnhawyd hefyd fod prosiect Llwybr Dyffryn Tywi yn dal ar y gweill ac roedd trafodaethau'n cael eu cynnal gyda thirfeddianwyr, ynghyd â gwaith cynllunio ac arolygon ecoleg.

### **5. Pwnc a drafodwyd: Llwybrau'r Sir / Hyrwyddo Cerdded**

Dyddiad(au) Trafod: 12 Mawrth 2020, 9 Gorffennaf 2020, 22 Hydref 2020

Crynodeb: Cafwyd trafodaeth am y rhaglen Teithiau Cerdded Sirol a'r ffaith fod Cyngor Sir Caerfyrddin yn eu marchnata ymhellach yn ystod 2020 yng nghyfarfod mis Mawrth. Cyn cyfarfod mis Gorffennaf, rhoddodd Martin Murray y wybodaeth ddiweddaraf i

aelodau'r Fforwm ynglŷn â'r cynnydd a wnaed a chadarnhaodd fod y wefan wedi'i diweddarau ac roedd gwaith ar y gweill gyda'r prosiect Teithiau Cerdded Sirol. Yng nghyfarfod mis Hydref, trafodwyd y syniad o gynnwys y llwybrau mwyaf addas ar gyfer defnyddwyr anabl. Cadarnhawyd y byddai'r mater hwn yn cael ei ddwyn gerbron y tîm er trafodaeth.

#### 6. Pwnc a drafodwyd: **Diwygio Mynediad**

Dyddiad(au) Trafod: 12 Mawrth 2020, 9 Gorffennaf 2020, 22 Hydref 2020

Crynodeb: Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Fforwm Mynediad Lleol am y rhaglen diwygio mynediad a dywedwyd y byddai'n ymgynghori ynghylch y cynigion yng nghyfarfod mis Mawrth. Yng nghyfarfod mis Gorffennaf, trafodwyd natur gymhleth yr ymgynghoriad a chytunwyd y byddai'r Fforwm Mynediad Lleol yn gwneud sylw, sef ei bod yn anodd darparu adborth adeiladol ar hyn o bryd oherwydd natur ac amseriad yr ymgynghoriad. Yng nghyfarfod mis Hydref, cadarnhawyd bod 3ydd cam y Diwygio Mynediad wedi'i gwblhau a bod adborth a sylwadau gan y grwpiau arbenigol wedi'u bwydo i mewn i'r broses. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael yn 2021.

#### 7. Pwnc a drafodwyd: **Arwyddbyst Hawliau Tramwy Cyhoeddus**

Dyddiad(au) Trafod: 12 Mawrth 2020

Crynodeb: Rhoddwyd gwybod i'r Fforwm Mynediad Lleol bod 141 o arwyddbyst hawliau tramwy wedi'u gosod ar y briffordd yn ystod y 3 blynedd diwethaf.

#### 8. Pwnc a drafodwyd: **Datganiadau Ardal CNC**

Dyddiad(au) Trafod: 12 Mawrth 2020

Crynodeb: Trafododd David Bleines o Gyfoeth Naturiol Cymru y datganiadau ardal gyda'r Fforwm Mynediad Lleol.

#### 9. Pwnc a drafodwyd: **Adroddiad Blynyddol y Fforwm**

Dyddiad(au) Trafod: 12 Mawrth 2020

Crynodeb: Trafodwyd adroddiad blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol ar gyfer 2019 gyda'r Fforwm Mynediad Lleol.

#### 10. Pwnc a drafodwyd: **Adroddiadau ar Faterion**

Dyddiad(au) Trafod: 12 Mawrth 2020, 9 Gorffennaf 2020, 22 Hydref 2020

Crynodeb: Derbyniwyd adroddiadau chwarterol ar nifer o faterion cyfreithiol a chynnal a chadw oedd heb eu datrys ac fe'u trafodwyd ym mhob un o gyfarfodydd y Fforwm Mynediad Lleol. Mae adroddiadau ar faterion wedi'u darparu ers mis Mai 2016, ac ers hynny bu cynnydd yn nifer y materion Cynnal a Chadw (+45%) a Chyfreithiol (+110%) yr oedd angen eu trafod. Mae'r cynnydd hwn wedi parhau a chyflymu yn y ddau faes yn ystod 2020.

Mae rhesymau ynglŷn â hyn yn amrywio, ac yn eu plith y mae'r canlynol: cynnydd sylweddol yn nifer y materion sy'n cael eu hadrodd, mae'n debyg oherwydd bod mwy o aelodau'r cyhoedd wedi bod eisiau defnyddio eu hawliau tramwy lleol yn 2020 oherwydd cyfyngiadau symud; Bu'n anodd prosesu Gorchmynion Cyfreithiol oherwydd bod canolfannau cyswllt ar gau am ran sylweddol o'r flwyddyn, a bu'n anoddach i staff ymweld â safleoedd; Mae materion cynnal a chadw hefyd wedi cynyddu oherwydd bod ceidwaid yn gyfyngedig o ran beth y gallant ei wneud oherwydd cyfyngiadau teithio a gwaith.

Yng nghyfarfod mis Gorffennaf, trafodwyd y syniad o ddefnyddio gwirfoddolwyr i leihau'r ôl-groniad. Yng nghyfarfod mis Hydref, cadarnhawyd bod nifer y materion yr adroddwyd amdanynt wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn. Dywedodd y Cynghorydd Hazel Evans fod hyn yn debygol oherwydd bod nifer y defnyddwyr ar y rhwydwaith wedi cynyddu gan nad oedd pobl yn gallu teithio'n bell ac felly'n penderfynu ymweld â'u cymdogaeth leol ar draul hynny. Y gobaith yw y bydd mwy o wirfoddolwyr a Chynghorau Cymuned yn helpu i gadw'r rhwydwaith ar agor yn 2021.

Cadarnhaodd Stephen Pilliner fod cael y ffigurau hyn o'r adroddiadau rheolaidd hyn wrth law yn helpu Cyngor Sir Gâr i gadw ffocws ar gyflwr y rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus ac yn fodd o lywio cynlluniau strategol perthnasol.

#### 11. Pwnc a drafodwyd: **Y Wybodaeth Ddiweddaraf am faterion penodol yn ymwneud â'r Cardi Bach a Pontfelin Gât**

Dyddiad(au) Trafod: 12 Hydref 2020, 9 Gorffennaf 2020

Crynodeb: Roedd yr aelodau wedi gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch materion yn ymwneud â'r 2 brosiect hyn. Yng nghyfarfod mis Mawrth, cadarnhawyd bod grŵp lleol yn edrych ar astudiaeth dichonoldeb ar gyfer llwybr aml-ddefnydd ar hyd y Cardi Bach. Cadarnhawyd bod Pontfelin Gât wedi ei gau gan yr Ardd Fotaneg Genedlaethol ac y gallai fod yn destun hawliad yn ymwneud â hawliau cyhoeddus. Trafodwyd hefyd yr astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer y Cardi Bach yng nghyfarfod mis Gorffennaf.

#### 12. Pwnc a drafodwyd: **Staffio Hawliau Tramwy Cyhoeddus**

Dyddiad(au) Trafod: 12 Mawrth 2020, 22 Hydref 2020

Crynodeb: Cadarnhawyd yng nghyfarfod mis Mawrth fod cymeradwyaeth wedi'i rhoi ar gyfer swydd cynorthwydd am gyfnod penodol o 2 flynedd ynghyd â'r defnydd o ymgynghorydd. Yng nghyfarfod mis Hydref, cadarnhawyd bod cynorthwydd Mynediad Cefn Gwlad newydd yn ei le a bod Caroline Ferguson wedi ei chadarnhau fel Rheolwr Mynediad Cefn Gwlad.

#### 13. Pwnc a drafodwyd: **Polisi Codi Tâl**

Dyddiad(au) Trafod: 12 Mawrth 2020, 22 Hydref 2020

Crynodeb: Yng nghyfarfod mis Mawrth, cadarnhawyd bod polisi codi tâl wedi'i ddatblygu sy'n caniatáu i dirfeddianwyr osod gatiâu i gerddwyr yn rhad ac am ddim yn lle'r hen rai a oedd yn fwy rhwystrol. Cadarnhawyd yng nghyfarfod mis Hydref bod y sylwadau a



ddaeth i law wedi'u cynnwys yn y ddogfen ac y byddai'n mynd trwy broses gymeradwyo'r Cyngor.

#### 14. Pwnc a drafodwyd: **Strategaeth Farchogaeth**

Dyddiad(au) Trafod: 12 Mawrth 2020, 22 Hydref 2020

Crynodeb: Cadarnhawyd yng nghyfarfod mis Mawrth y dylai Strategaeth Farchogaeth Sir Gaerfyrddin fod ar gael ar ffurf ddrafft ymhen blwyddyn. Cadarnhawyd yng nghyfarfod mis Hydref fod y gwaith o lunio'r strategaeth wedi'i ohirio a'i fod bellach wedi'i drefnu ar gyfer 2021.

#### 15. Pwnc a drafodwyd: **Effeithiau COVID 19 ar y Tîm Hawliau Tramwy**

Dyddiad(au) Trafod: 9 Gorffennaf 2020, 22 Hydref 2020

Crynodeb: Yng nghyfarfod mis Gorffennaf, rhoddodd Caroline Ferguson y wybodaeth ddiweddaraf i'r Fforwm Mynediad Lleol ar yr effaith negyddol yr oedd y pandemig yn ei chael ar y tîm hawliau tramwy a'r modd y mae'n gweithredu ac yn rheoli'r hawliau tramwy.

Yng nghyfarfod mis Hydref, rhoddodd Stephen Pilliner sylw i'r problemau sy'n wynebu'r timau hawliau tramwy ac eglurodd mai dim ond i ddigwyddiadau argyfyngus yr oedd y tîm cynnal a chadw wedi gallu ymateb ac roedd y tîm cyfreithiol yn cael eu boddi gan faterion yn ymwneud â thirfeddianwyr a chwynion am rwystrau. Dywedodd Hazel Evans fod hyn oherwydd bod cynnydd enfawr yn nifer y bobl oedd yn defnyddio'r rhwydwaith yn ystod y cyfyngiadau symud a bod yn rhaid blaenoriaethu gwasanaethau eraill fel casglu gwastraff. Esboniodd Caroline Ferguson fod CAMS yn cael ei ddatblygu i helpu i drefnu a rheoli gwirfoddolwyr o'r flwyddyn nesaf ymlaen ac roedd 4 ceidwad yn y tîm cynnal a chadw ar hyn o bryd.

#### 16. Pwnc a drafodwyd: **Llwybr Dyffryn Tywi**

Dyddiad(au) Trafod: 9 Gorffennaf 2020

Crynodeb: Dywedodd y cadeirydd wrth y Fforwm Mynediad Lleol ei fod wedi mynychu cyfarfod ar-lein i drafod y prosiect gydag aelodau CAPITA, Sustrans a Teithio Llesol Cymru hefyd yn bresennol. Cadarnhawyd bod CAPITA yn ail-wneud yr astudiaeth dichonoldeb ar gyfer y prosiect ac yn holi busnesau am werth y prosiect iddynt. Eglurwyd bod y cadeirydd o'r farn y dylai'r astudiaeth hon fod wedi'i chynnal cyn i'r prosiect ddechrau.

#### 17. Pwnc a drafodwyd: **Ymgynghoriad Teithio Llesol**

Dyddiad(au) Trafod: 9 Gorffennaf 2020

Crynodeb: Trafodwyd ymgynghoriad ar fapiau Teithio Llesol yng nghyfarfod mis Gorffennaf. Cadarnhawyd bod yr ymgynghoriad hwn yn parhau tan fis Medi 2021 ac y dylid cynnal ymgynghoriad pellach yn 2021.

18. Pwnc a drafodwyd: **Cynllun Adnoddau Coedwig Crychan**

Dyddiad(au) Trafod: 9 Gorffennaf 2020

Crynodeb: Trafodwyd materion ynghylch Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal ymgynghoriad ar Gynllun Adnoddau Coedwig Crychan. Cadarnhawyd y byddai ymgynghoriad pellach yn digwydd ynglŷn â'r mater hwn yn y dyfodol.

19. Pwnc a drafodwyd: **Cyllid**

Dyddiad(au) Trafod: 22 Hydref 2020

Crynodeb: Rhoddwyd gwybod i'r Fforwm Mynediad Lleol bod cyllid ychwanegol wedi'i sicrhau ar gyfer nifer o brosiectau hawliau tramwy ac y byddai rhagor o wybodaeth am y prosiectau hyn yn cael ei thrafod gyda'r Fforwm Mynediad Lleol ym mis Ionawr.

20. Pwnc a drafodwyd: **Cynllun Rheoli Asedau Hawliau Tramwy Cyhoeddus**

Dyddiad(au) Trafod: 22 Hydref 2020

Crynodeb: Trafodwyd y gwaith o greu cynllun rheoli asedau hawliau tramwy cyhoeddus. Byddai hyn yn debyg i'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd (HAMP), sef côd ymarfer ar gyfer rheoli'r rhwydwaith ffyrdd. Bydd hyn yn helpu i flaenoriaethu hawliau tramwy yn ôl eu pwysigrwydd i'r rhwydwaith. Cadarnhawyd y bydd y cynllun yn cael ei drafod gyda'r Fforwm Mynediad Lleol yn 2021.

## Gweithgareddau eraill y Cadeirydd / yr Is-gadeirydd / y Fforwm

Rhestr o'r gweithgareddau eraill a gyflawnodd Cadeirydd / Is-gadeirydd / Aelodau eraill y Fforwm Mynediad Lleol yn unol ag amcanion y Fforwm yn ystod 2020	Digwyddiad a Fynychwyd	Natur y Presenoldeb	Mynychwyd gan
25/02/20	Cyfarfod Datganiadau Ardal y De-orllewin gyda Cyfoeth Naturiol Cymru	Gofynnwyd i Fforymau Mynediad Lleol De-orllewin Cymru fod yn bresennol	Aelodau'r Amrywiol Fforymau Mynediad Lleol
08/06/20	Cyfarfod Rhanddeiliad Llwybr Dyffryn Tywi	Cadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol	Mark Hadley (Cadeirydd)
08/12/20	Cyfarfod y Cadeirydd/yr Is-gadeirydd gyda Stephen Pilliner a Caroline Ferguson	Trafod materion y Fforwm Mynediad Lleol a phrosiectau arfaethedig.	Karen Burch, Stephen Pilliner, Caroline Ferguson

# **Atlodiadau**

## Atodiad 1

### Adroddiadau ar Faterion Cynnal a Chadw a Materion Cyfreithiol sydd heb eu datrys


#### Adroddiadau ar gyfer:

#### A. Mawrth 2020

#### Adroddiadau ar Faterion Cynnal Chadw

Responsibility = Maint	Maint
MaintStatus Desc = Unresolved	Unresolved


Number of Issues	RouteStatus				Grand Total
	Footpath	Bridleway	Byway Open to All Traffic	UCR	
Sign roadside	333	19	4		356
Cross path	273	10	4		287
Vegetation	203	9			212
Stile	153			2	155
Gate	128	17	1		146
Sign not road	129	5	1		135
Bridge	113	3			116
Terrain	70	10	1	1	82
Missing	14				14
Survey	11	2			13
Other	12				12
Steps	11				11
Boardwalk	8				8
Alongside path	4		1		5
Litter	3				3
<b>Grand Total</b>	<b>1465</b>	<b>75</b>	<b>12</b>	<b>3</b>	<b>1555</b>



## Materion Cyfreithiol

Responsibility = Legal	Legal
MaintStatus Desc = Unresolved	Unresolved

Number of Issues	RouteStatus				Grand Total
	Footpath	Bridleway	Byway Open to All Traffic	Restricted Byway	
Legal	478	31	25	1	535
Obstacles	40		1		41
Cross path	16	3			19
Land use	11	2			13
Intimidating or Misleading	6				6
Alongside path	3				3
<b>Grand Total</b>	<b>554</b>	<b>36</b>	<b>26</b>	<b>1</b>	<b>617</b>




## B. Mehefin 2020

Adroddiadau ar Faterion Cynnal Chadw

Responsibility = Maint	Maint
MaintStatus Desc = Unresolved	Unresolved


Number of Issues	RouteStatus				Grand Total
MaintTypeGroup	Footpath	Bridleway	Byway Open to All Traffic	UCR	Grand Total
Sign roadside	332	19	4		355
Cross path	270	10	4		284
Vegetation	216	13			229
Stile	161				161
Gate	129	18	1		148
Sign not road	128	5	1		134
Bridge	114	3			117
Terrain	69	7	1	1	78
Survey	12	2			14
Missing	13				13
Other	12				12
Boardwalk	8				8
Steps	8				8
Litter	5				5
Alongside path	3		1		4
<b>Grand Total</b>	<b>1480</b>	<b>77</b>	<b>12</b>	<b>1</b>	<b>1570</b>



## Materion Cyfreithiol

Responsibility = Legal	Legal
MaintStatus Desc = Unresolved	Unresolved

Number of Issues	RouteStatus				Grand Total
	Footpath	Bridleway	Byway Open to All Traffic	Restricted Byway	
Legal	535	32	25	1	593
Obstacles	38		1		39
Cross path	15	3			18
Land use	11	2			13
Intimidating or Misleading	6				6
Alongside path	3				3
<b>Grand Total</b>	<b>608</b>	<b>37</b>	<b>26</b>	<b>1</b>	<b>672</b>






## C. Medi 2020

### Adroddiadau ar Faterion Cynnal Chadw

Responsibility = Maint	Maint
MaintStatus Desc = Unresolved	Unresolved


Number of Issues	RouteStatus				Grand Total
	Footpath	Bridleway	Byway Open to All Traffic	UCR	
Sign roadside	358	20	4		382
Cross path	282	10	4		296
Vegetation	258	20			278
Stile	174			1	175
Gate	137	17	1		155
Sign not road	136	5	1		142
Bridge	117	3			120
Terrain	80	11	1		92
Survey	12	2			14
Missing	14				14
Other	12				12
Steps	11				11
Boardwalk	8				8
Alongside path	4		1		5
Litter	5				5
<b>Grand Total</b>	<b>1608</b>	<b>88</b>	<b>12</b>	<b>1</b>	<b>1709</b>



## Materion Cyfreithiol

Responsibility = Legal	Legal
MaintStatus Desc = Unresolved	Unresolved

Number of Issues	RouteStatus				
MaintTypeGroup	Footpath	Bridleway	Byway Open to All Traffic	Restricted Byway	Grand Total
Legal	561	36	25	1	623
Obstacles	38		1		39
Cross path	18	3			21
Land use	11	2			13
Intimidating or Misleading	6				6
Alongside path	3				3
<b>Grand Total</b>	<b>637</b>	<b>41</b>	<b>26</b>	<b>1</b>	<b>705</b>



## Atodiad 2 – Penodi Manylion Awdurdod

**Enw'r Awdurdod Penodi:** Cyngor Sir Caerfyrddin

**Ardal y mae'r Fforwm yn gyfrifol amdani:** Sir Gaerfyrddin gyfan ac eithrio'r rhan honno sy'n rhan o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

**Ysgrifennydd:** Caroline Ferguson, Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad, Uned Cefn Gwlad, Hamdden a Mynediad, Cyngor Sir Caerfyrddin, Parc Coetir y Mynydd Mawr, Heol Hirwaun Olau, y Tymbl, Sir Gaerfyrddin, SA14 6HU.

**Rhif Ffôn:** 01554 742216

**E-bost:** [CFerguson@sirgar.gov.uk](mailto:CFerguson@sirgar.gov.uk)

## Atodiad 3 – Map o Ardal y Fforwm Mynediad Lleol



© Hewlett-Packard & Garmin a hysbysu amanta 8/2008 100022577  
© Crown copyright and database rights 2010 Ordnance Survey 100003377

Additional information: Carmarthenshire County Council

### Allwedd

Ardal wedi'i hamgylchynu mewn coch = Sir Gaerfyrddin

Ardal wedi'i hamgylchynu mewn melyn = Rhan o'r Sir ym Mannau Brycheiniog  
Parc Cenedlaethol (heb fod yn rhan o Fforwm Sir  
Gaerfyrddin)

## Atodiad 4 - Manylion Aelodaeth / Recriwtio

Yn unol â Rheoliad 3 o Reoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforwm Mynediad Lleol) (Cymru) 2001, mae holl aelodau'r fforwm yn cael eu penodi am dair blynedd o ddyddiad y cyfarfod cyntaf o gylch tair blynedd y fforwm.

Yn y cyfarfod ar 14 Mehefin 2018 etholwyd yr aelodau canlynol ar y Fforwm Mynediad Lleol am y 3 blynedd nesaf.

Enw	Dyddiad y penodwyd i'r Fforwm	Dyddiad y daeth Aelodaeth y Fforwm i ben	Cefndir / Diddordebau yn fras
Mark Hadley (Cadeirydd)	26/02/15	Ddim yn berthnasol	Twristiaeth, Cerdded, Mynediad i Gerbydau Modur
Karen Burch (Is-gadeirydd)	26/02/15	Ddim yn berthnasol	Mynediad i Geffylau, Twristiaeth
Caroline Ferguson (Ysgrifennydd Interim)	12/05/16	Ar gyfnod mamolaeth o gyfarfod 28/09/17 ymlaen	Rheolwr Interim - Mynediad i Gefn Gwlad, Cyngor Sir Caerfyrddin
Martin Murray	14/06/18	Ddim yn berthnasol	Swyddog datblygu llwybrau cyhoeddus, Cyngor Sir Caerfyrddin
Jillie Gardiner	14/06/18	Ddim yn berthnasol	Mynediad i Geffylau, Twristiaeth
Glyn Evans	14/06/18	Ddim yn berthnasol	Ffermio
David Stacey	14/06/18	Ddim yn berthnasol	Beicio, Rheoli Cefn Gwlad, Amgylchedd Amaethyddol
Jane Evans	14/06/18	Ddim yn berthnasol	Cymdeithas Ceffylau Prydain
Richard Leggett	14/06/18	Ddim yn berthnasol	Cerddwyr Caerfyrddin
Geoffrey Williams	14/06/18	Ddim yn berthnasol	Cerdded
Gerald Brown	14/06/18	Ddim yn berthnasol	Ffermio
Paul Barrett	14/06/18	Ddim yn berthnasol	Cerdded
Mo Rapley	14/06/18	Ddim yn berthnasol	Mynediad i Gerbydau Modur
Michael Jones	14/06/18	Ddim yn berthnasol	Bioamrywiaeth, Ecoleg a Hamdden

Ni etholwyd unrhyw aelodau newydd yn ystod 2020

Mae nifer o ymgynghorwyr / aelodau o'r cyhoedd wedi mynychu cyfarfodydd y Fforwm drwy gydol y flwyddyn fel y dangosir yn y tabl isod.

<b>Enw</b>	<b>Sefydliad</b>	<b>Cyfarfodydd a fynychwyd</b>
Stephen Pilliner	Pennaeth Priffyrdd a Chludiant, Cyngor Sir Caerfyrddin	12/03/20, 22/10/20
Lucy Pugh	Swyddog Mynediad Cefn Gwlad Dros-dro, Cyngor Sir Caerfyrddin	12/03/20
Rob Williams	Cymrodoriaeth Trail Riders	12/03/20
Nigel Bailey	Cerdded Iach Sanctôr	12/03/20
Clive Poulton	Defnyddiwr Anabl	12/03/20
Phillip Morgan	Cynrychiolydd Cyfoeth Naturiol Cymru	12/03/20
David Bleines	Cynrychiolydd Cyfoeth Naturiol Cymru	12/03/20
Cynghorydd Hazel Evans	Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd	22/10/20

## Atodiad 5

### Rhestr Ddosbarthu Adroddiad Blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol

Gwefan Cyngor Sir Caerfyrddin  
Llyfrgelloedd Cyngor Sir Caerfyrddin  
Canolfannau Gofal Cwsmeriaid Cyngor Sir Caerfyrddin  
Cynghorau Cymuned  
Aelodau Cyngor Sir Caerfyrddin  
Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Cyngor Sir Caerfyrddin  
Cymdeithas Twristiaeth Sir Gâr  
Cymdeithas Cerddwyr Ceredigion  
Cymdeithas Cerddwyr Penfro  
Cymdeithas Cerddwyr Llanelli  
Cymdeithas Cerddwyr Dinefwr  
Cymdeithas Cerddwyr Caerfyrddin a'r Cylch  
Cymdeithas Cerddwyr Llanbedr Pont Steffan  
Marchogion Sir Gaerfyrddin  
Cymdeithas Ceffylau Prydain  
Cymdeithas y Lonydd Gwyrdd  
Treadlightly  
Trail Riders Fellowship  
Welsh Trail Riders Association  
Auto Cycle Union  
British Motorcyclists Association  
Sustrans Cymru  
Cyfoeth Naturiol Cymru  
Undeb Amaethwyr Cymru  
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr  
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol  
Cymdeithas Mannau Agored  
Ymddiriedolaeth Cilffyrdd a Llwybrau Ceffylau  
Cymdeithas Gyrru Prydain

Clwb Teithiau i Feicwyr (Cyclists Touring Club)

LARA (Cymdeithas Hamdden a Mynediad i Dir)

Canŵ Cymru

Fforwm Mynediad Lleol Bannau Brycheiniog

Fforwm Mynediad Lleol Sir Benfro

Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion

Fforwm Mynediad Lleol Powys

Fforwm Mynediad Lleol Castell-nedd a Phort Talbot

Fforwm Mynediad Lleol Abertawe



## Atodiad 6

### Rhagor o Ddeunydd Darllen

*Adroddiadau Blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol*

Mae'n ofynnol yn ôl statud i bob awdurdod penodi lunio adroddiadau blynyddol. Gellir cael copi ohonynt gan Ysgrifennydd y Fforwm perthnasol. Mae agendâu, cofnodion a phapurau eraill ar gyfer cyfarfod unigol y Fforwm hefyd ar gael:

<https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/hawliau-tramwy-cyhoeddus/fforwm-mynediad-lleol/>

*Deddf y Llywodraeth*

Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000; The Stationery Office Ltd (2000).

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol ) (Cymru) 2001;  
The Stationery Office Limited (2002).

Canllawiau ynghylch Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar gyfer Awdurdodau Lleol (Hydref 2016)

*Cyfoeth Naturiol Cymru*

Cyfarwyddyd ar gyfer Fforwm Mynediad Lleol 1: Sefydlu Fforymau Mynediad Lleol – Cyngor a Chyfarwyddyd Arferion Da (2002).

Cyfarwyddyd ar gyfer Fforwm Mynediad Lleol 2: Swyddogaeth, Dyletswyddau a Phwrpas Fforymau Mynediad Lleol (2002)

## Atodiad 7

### Rhestr Termiau

Mae'r rhestr isod yn dangos y diffiniadau llawn ar gyfer yr acronymau a ddefnyddiwyd drwy gydol yr adroddiad blynyddol hwn:

Y Fforwm	Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin
CSC	Cyngor Sir Caerfyrddin
ROWIP	Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
PROW	Hawliau Tramwy Cyhoeddus
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
LARA	Cymdeithas Hamdden a Mynediad i Dir
HAMP	Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd
AOB	Unrhyw fusnes arall
CAMS	System Rheoli Mynediad i Gefn Gwlad